**Rhif:** WG40225

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg

Cynigion deddfwriaethol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg yn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru

Dyddiad cyhoeddi: 05 Mai 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 28 Gorffennaf 2020

© Hawlfraint y Goron 2020

# Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Rydym am gael eich barn am gynigion deddfwriaethol i gefnogi addysg grefyddol fel pwnc gorfodol yn y Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr 3-16 oed, fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. |
| **Sut i ymateb** | Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost/drwy'r post i'r cyfeiriad isod, i gyrraedd erbyn **28 Gorffennaf 2020** fan bellaf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-gweddnewidiol<br><br>Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn: https://llyw.cymru/sicrhau-mynediad-ir-cwricwlwm-llawn<br><br>Datganiad Ysgrifenedig: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-crefydd-gwerthoedd-moeseg<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:<br><br>Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant<br>Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: YmgynghoriadCGM@llyw.cymru |

@LlC_Addysg

Facebook/EducationWales

# Cynnwys


**Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)** **2**

**Crynodeb** **0**

Beth yw'r prif faterion? 0

Y trefniadau presennol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru 0

**Newidiadau arfaethedig** **2**

Cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg 2

Canllawiau ar feysydd llafur cytunedig 3

Meysydd llafur cytunedig a meysydd llafur enwadol a'r disgwyliadau ar gyfer mathau gwahanol o ysgolion 3

Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb nodweddion crefyddol: 3

Ysgolion gwirfoddol a reolir â nodweddion crefyddol: 4

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol: 4

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg am y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu ymgynghoriadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol, yn gweld unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn llawn. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w gwblhau gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y caiff unrhyw waith o'r fath ei wneud. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw na'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, dywedwch wrthym yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni chaiff unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau
O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i:

- wybod am y data personol a gedwir amdanoch, a'u gweld
- ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hynny
- gwrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- gofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- cludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Crynodeb

## Beth yw'r prif faterion?

1. Mae addysg grefyddol yn rhan orfodol o'r cwricwlwm presennol i bob disgybl cofrestredig mewn ysgol heblaw dosbarthiadau meithrin. Bydd yn parhau i fod yn bwnc gorfodol yn y Cwricwlwm i Gymru, ond bellach i bob dysgwr 3-16 oed, fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

2. Ar sail y gyfraith achosion bresennol, rydym yn disgwyl y bydd yn rhaid i'r broses o addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod yn un blwraliaethol. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid iddi fod yn gytbwys o ran cynnwys a dull addysgu. Dylai adlewyrchu'r amrywiaeth o grefyddau, bydolygon neu argyhoeddiadau anghrefyddol athronyddol gwahanol a ddelir gan bobl yng Nghymru a Phrydain Fawr. Mae sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi hyn yn briodol yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r trefniadau ar gyfer y Cwricwlwm newydd.

3. Cynigiodd yr ymgynghoriad diweddar ar Sicrhau Mynediad i'r Cwricwlwm Llawn y dylid newid enw Addysg Grefyddol er mwyn dangos yn glir y bwriad i ymdrin â mwy na chrefydd yn yr elfen hon o'r cwricwlwm.

4. Ar ôl ystyried cyngor ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r asesiad effaith, penderfynodd y Gweinidog Addysg y byddai'r pwnc yn cael ei ailenwi'n "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg" yn y cwricwlwm newydd.

5. Fel rhan o'r un ymgynghoriad, ceisiwyd barn am oblygiadau ymarferol cynnig na ddylai'r cwricwlwm newydd roi hawl i rieni dynnu disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol (neu Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm newydd) nac addysg rhyw (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd.) Unwaith eto, ar ôl ystyried cyngor ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r asesiad effaith yn ofalus, ac yn unol â pholisi cwricwlwm Llywodraeth Cymru, penderfynodd y Gweinidog Addysg na ddylid rhoi hawl i rieni dynnu disgyblion yn ôl o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg nac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

6. Ers y penderfyniad hwnnw, mae rhagor o waith manwl wedi'i wneud i bennu'r newidiadau ehangach sydd eu hangen i'r ddeddfwriaeth er mwyn rhoi'r polisi hwn ar waith.

7. Nod yr ymgynghoriad hwn yw ceisio eich barn am y newidiadau arfaethedig pellach i'r ddeddfwriaeth i gefnogi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel rhan orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru.

## Y trefniadau presennol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru

8. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig os bydd unrhyw grŵp cynrychioliadol ar ei Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn gofyn iddo wneud hynny. Yna, bydd y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn pennu cynnwys y maes neu feysydd llafur cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol i'w haddysgu mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol hwnnw.

9. Mae'n ofynnol i ysgolion a gynhelir heb nodweddion crefyddol addysgu Addysg Grefyddol yn unol â maes llafur cytunedig a fabwysiadwyd ar gyfer yr ysgolion hynny neu eu disgyblion.

10. Mae'r trefniadau ychydig yn wahanol ar gyfer ysgolion a gynhelir â nodweddion crefyddol.

11. Mae'n ofynnol i ysgol sefydledig neu wirfoddol a reolir â nodweddion crefyddol addysgu Addysg Grefyddol yn unol â maes llafur cytunedig a fabwysiadwyd ar gyfer yr ysgol neu ei disgyblion. Fodd bynnag, os bydd rhiant disgybl yn mynnu bod yn rhaid i'r ysgol sicrhau darpariaeth Addysg Grefyddol enwadol ar gyfer y disgybl yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu (os nad yw'r weithred ymddiriedolaeth yn darparu ar gyfer y diben hwnnw) yn unol â daliadau ffydd penodol yr ysgol, rhaid iddi wneud hynny oni fydd y corff llywodraethu yn fodlon bod amgylchiadau arbennig a fyddai'n golygu bod hynny'n afresymol.

12. Rhaid i ysgol wirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol ddarparu Addysg Grefyddol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu (os nad yw'r weithred ymddiriedolaeth yn darparu ar gyfer y diben hwnnw) yn unol â daliadau ffydd penodol yr ysgol. Fodd bynnag, gall rhiant disgybl ofyn i'r ysgol ddarparu Addysg Grefyddol i'w blentyn yn unol â maes llafur cytunedig a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol. Os bydd cais o'r fath yn cael ei wneud ac nad yw'n rhesymol gyfleus i riant anfon y disgybl i ysgol arall sy'n addysgu maes llafur cytunedig o'r fath, rhaid i'r ysgol ddarparu Addysg Grefyddol i'r disgybl yn unol â maes llafur cytunedig o'r fath, oni fydd y corff llywodraethu yn fodlon bod amgylchiadau arbennig a fyddai'n golygu bod hynny'n afresymol.

13. Gallem ddarparu Addysg Grefyddol blwraliaethol mewn un o ddwy ffordd. Byddai'r ddwy ohonynt yn sicrhau bod y canllawiau a'r fframwaith deddfwriaethol arfaethedig yn gydnaws â'r hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Y ffordd gyntaf fyddai gorfodi rhwymedigaeth newydd ar bob ysgol i addysgu Addysg Grefyddol mewn modd plwraliaethol. Byddai'r dull gweithredu hwn yn dileu pob cyfyngiad arall ac yn gorfodi pob ysgol i newid y ffordd y mae'n addysgu (gan dybio bod unrhyw newid yn angenrheidiol). Byddai hefyd yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth a bennir yn ei gweithred ymddiriedolaeth. Mae hyn yn debygol o effeithio ar allu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol i addysgu Addysg Grefyddol yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth neu enwad. Byddai maint yr effaith honno yn amrywio yn dibynnu ar y ddarpariaeth benodol yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol a dull addysgu presennol yr ysgol. Nid ydym yn cynnig y dylid mynd ar drywydd yr opsiwn hwn gan y byddai'n arwain at oblygiadau mawr i ysgolion â nodweddion crefyddol, ac nid ydym yn bwriadu gwneud newidiadau sylfaenol i'r trefniadau hyn.

14. Yr ail ddull gweithredu yw peidio â gosod rhwymedigaeth newydd fel y disgrifir uchod, ond gwneud nifer o newidiadau deddfwriaethol i'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â darparu'r maes llafur cytunedig, er mwyn sicrhau, cyn belled ag y modd, ei bod yn bodloni'r Gofyniad Plwraliaeth. Ni fyddai hyn yn golygu bod angen i bob ysgol newid ei hymarfer addysgu, oherwydd byddai'n galluogi ysgolion i barhau i addysgu yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth neu enwad. Fodd bynnag, byddai'n sicrhau bod pob disgybl yn cael Addysg Grefyddol blwraliaethol. Dyma'r dull gweithredu rydym yn ei gynnig.

## Newidiadau arfaethedig

15. Rydym yn cynnig y dylid gwneud y newidiadau canlynol.

## Cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

16. Yn ogystal â newid yr enw i Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, rydym yn cynnig y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i'w gwneud yn glir bod yn rhaid i unrhyw faes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg adlewyrchu credoau crefyddol yn ogystal â chredoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol yn unol â'r ystyr a bennir yn Erthygl 2, Protocol 1 (ac felly'n gredoau yn unol â'r ystyr a bennir yn Erthygl 9) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ein nod wrth gynnig y diwygiad hwn yw ei gwneud yn gliriach mai dim ond yr argyhoeddiadau athronyddol hynny sydd, o bryd i'w gilydd, yn destun cyfraith achosion Hawliau'r Confensiwn ac, felly, sydd â lefel benodol o ddifrifoldeb, grym, cydlyniad a phwysigrwydd o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, y mae angen eu hadlewyrchu. Mae'r rhain yn cynnwys credoau fel dyneiddiaeth ac anffyddiaeth. Mater i'r Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig fydd penderfynu beth i'w gynnwys yn y maes llafur cytunedig. Byddwn yn rhoi canllawiau i Gynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig i'w helpu i wneud hyn.

17. Rydym yn cynnig y dylid rhoi'r cynnig hwn ar waith fel a ganlyn. Yn hytrach na'r cyfeiriad presennol at enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill ac enwadau'r cyfryw grefyddau hynny a fydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal mewn ffordd briodol, neu gyfeiriad tebyg, rydym yn cynnig y dylid ychwanegu darpariaeth ychwanegol sy'n cyfeirio at argyhoeddiadau anghrefyddol athronyddol yn unol â'r ystyr a bennir yn Erthygl 2, Protocol 1[1] (ac felly gredoau yn unol â'r ystyr a bennir yn Erthygl 9[2]) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Caiff newidiadau hefyd eu gwneud i'r darpariaethau sy'n ymdrin ag aelodaeth o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig i greu grwpiau newydd i gynrychioli'r rhai hynny ag argyhoeddiadau athronyddol o'r fath.

18. Nid ydym o'r farn y bydd y newidiadau hyn yn adlewyrchu newid perthnasol yn y gyfraith. Rydym o'r farn y bydd y newidiadau hyn yn egluro'r hyn sydd eisoes yn ofynnol yn ôl y gyfraith – addysgu Addysg Grefyddol mewn modd plwraliaethol yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gwnaethom ysgrifennu at CYSAGau ym mis Mai 2018 i gadarnhau ein dehongliad ni o'r ddarpariaeth a'r gyfraith achosion gyfredol, sef y gallai awdurdodau lleol wahodd cynrychiolwyr i ddod yn aelodau o CYSAGau a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig. Fodd bynnag, credwn fod yr eglurder hwn yn helpu i gyfleu'r disgwyliad bod yn rhaid i Addysg Grefyddol (Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg erbyn hyn) fod yn blwraliaethol.

---

[1] Erthygl 2 Protocol 1: *"No person shall be denied the right to education. In the exercise of any functions which it assumes in relation to education and to teaching, the State shall respect the right of parents to ensure such education and teaching in conformity with their own religious and philosophical convictions."*

[2] Mae Erthygl 9 yn pennu: *"(1) Everyone has the right to freedom of thought, conscience and religion; this right includes freedom to change his religion or belief and freedom, either alone or in community with others and in public or private, to manifest his religion or belief, in worship, teaching, practice and observance. (**2)** Freedom to manifest one's religion or beliefs shall be subject only to such limitations as are prescribed by law and are necessary in a democratic society in the interests of public safety, for the protection of public order, health or morals, or for the protection of the rights and freedoms of others."*

## Canllawiau ar feysydd llafur cytunedig

19. Rydym yn cynnig y dylid gwneud darpariaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, CYSAG a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm wrth ddatblygu a mabwysiadu maes llafur cytunedig.

## Meysydd llafur cytunedig a meysydd llafur enwadol a'r disgwyliadau ar gyfer mathau gwahanol o ysgolion

20. Fel y nodwyd yn gynharach, un o'r ystyriaethau allweddol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yw sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu'n blwraliaethol. Rydym yn cynnig y dylid gwneud nifer o newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn mathau gwahanol o ysgolion. Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi fframwaith cenedlaethol clir i ysgolion ei ddilyn wrth ddylunio cwricwlwm sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr. Bwriedir i'r Cwricwlwm newydd fod yn llai rhagnodol ac, yn bwysig, mae'n creu dyletswyddau newydd i ysgolion ddylunio eu cwricwlwm eu hunain, a'i fabwysiadu. Mae'r pwyslais yn y polisi ar gwricwlwm sy'n llai rhagnodol a goblygiadau ymarferol y gofyniad i ysgolion ddylunio eu cwricwlwm eu hunain, yn gofyn i ni ystyried statws priodol meysydd llafur cytunedig. Yn gyffredinol, credwn y byddai'n fwy priodol ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ystyried maes llafur cytunedig yn hytrach nag addysgu yn unol ag ef. Mae'r newid hwn yn rhoi rhywfaint o ddisgresiwn i ysgolion wyro oddi ar y Maes Llafur Cytunedig. Rydym wedi cynnig y trefniadau arfaethedig ar gyfer mathau gwahanol o ysgolion a'r rhesymeg drostynt isod:

## Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb nodweddion crefyddol:

21. Bydd yn ofynnol i ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb nodweddion crefyddol ystyried maes llafur cytunedig wrth ddylunio a gweithredu'r addysgu a'r dysgu ar gyfer elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng nghwricwlwm yr ysgol fel elfen orfodol o'u cwricwlwm fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Ni fydd yn ofynnol i'r ysgolion hyn addysgu *yn unol* â maes llafur cytunedig a byddant yn parhau i gael eu hatal rhag cynnig maes llafur enwadol.

22. Er bod yr ysgolion hyn fel arfer yn darparu Addysg Grefyddol yn unol â'r maes llafur cytunedig, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol iddynt ddarparu Addysg Grefyddol ar ffurf wahanol, yn unol â pharagraff 2(3) o Atodlen 19 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, os bydd y canlynol yn berthnasol:

- ysgol uwchradd yw'r ysgol dan sylw,
- mae rhiant disgybl am i'r disgybl gael Addysg Grefyddol yn yr ysgol yn unol â daliadau crefydd benodol neu enwad crefyddol penodol;
- mae trefniadau boddhaol wedi'u gwneud i'r disgybl gael y math o Addysg Grefyddol y mae'r rhiant wedi gofyn amdani yn yr ysgol, heb fod yn rhaid i'r ysgol na'r awdurdod lleol dalu am y ddarpariaeth honno.

Yn yr amgylchiadau hynny, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cyfleusterau i gyflawni'r trefniadau a wnaed gan y rhieni, oni bai bod yr awdurdod yn fodlon bod amgylchiadau arbennig sy'n golygu bod hynny'n afresymol.

23. Rydym yn cynnig y dylid dileu'r hawl ychwanegol hon i gael Addysg Grefyddol amgen (nad yw'n blwraliaethol o bosibl) mewn ysgolion heb nodweddion crefyddol am nad ydym o'r farn bod hynny'n gyson ag egwyddor ceisio sicrhau Addysg Grefyddol blwraliaethol mewn ysgolion yng Nghymru.

## Ysgolion gwirfoddol a reolir â nodweddion crefyddol:

24. Bydd yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a reolir â nodweddion crefyddol *ddylunio* eu cwricwlwm fel ei fod yn cynnig dwy ddarpariaeth amgen:
    - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i dylunio'n unol â maes llafur cytunedig
    - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i dylunio'n unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol

    Wrth roi eu cwricwlwm *ar waith*, bydd yr ysgolion hyn yn addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â maes llafur cytunedig i ddisgyblion fel mater o drefn, ond, fel sy'n wir ar hyn o bryd, bydd yn rhaid iddynt addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd os bydd rhiant yn gofyn iddynt wneud hynny.

## Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol:

25. Bydd yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol *ddylunio* eu cwricwlwm fel ei fod yn cynnig dwy ddarpariaeth amgen:
    - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i dylunio'n unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol
    - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i dylunio'n unol â maes llafur cytunedig

    Wrth roi eu cwricwlwm *ar waith*, yr arfer gyffredin yn yr ysgolion hyn fydd addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â maes llafur cytunedig os bydd rhiant yn gofyn iddynt wneud hynny. Ni fydd gan yr ysgolion unrhyw ddisgresiwn o ran derbyn y cais hwn.

26. Mae'r newidiadau'n integreiddio'r bwriadau polisi hyn yn briodol yn y dyletswyddau dylunio (a mabwysiadu) a gweithredu newydd y bydd y Bil yn eu gosod ar ysgolion. At hynny, mae'r cynigion yn sicrhau bod fersiwn anenwadol a phlwraliaethol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael ym mhob ysgol, a hynny fel mater o drefn neu ar gais. Fel y nodwyd uchod o ran ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â nodweddion crefyddol, rydym yn cynnig y dylid caniatáu i ysgolion addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'u gweithred ymddiriedolaeth neu enwad. Mae hyn yn cynnal y sefyllfa bresennol i'r ysgolion hynny. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cynnig y dylid gwneud newidiadau eraill er mwyn sicrhau bod gan rieni yr hawl absoliwt i fynnu bod yr ysgol yn addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â Maes Llafur Cytunedig os byddant yn gofyn iddi wneud hynny. Ar hyn o bryd, mae hawl rhieni i gael darpariaeth o'r fath yn amodol. Er y gall rhieni ofyn am i Addysg Grefyddol gael ei haddysgu yn unol â maes llafur cytunedig, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddyletswydd ar yr ysgol i wneud trefniadau o'r fath os yw'n rhesymol gyfleus i'r disgybl fynychu ysgol arall sy'n addysgu'r maes llafur cytunedig, neu os oes amgylchiadau arbennig sy'n golygu ei bod yn afresymol i'r ysgol wneud y trefniadau gwahanol hynny.

27. Fel y nodwyd uchod, yn gyffredinol credwn ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ystyried maes llafur cytunedig, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol iddynt ddylunio eu cwricwlwm yn unol ag ef. Fodd bynnag, rydym wedi cynnig eithriad i'r dull gweithredu cyffredinol hwn lle mae ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn dylunio eu cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg 'amgen' neu'n ei roi ar waith. Nid yw'r

eithriad hwn yn effeithio ar eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol. Y rheswm dros gynnig y gwahaniaeth hwn yw er mwyn rhoi eglurder i rieni ynghylch y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg amgen sydd ar gael yn yr ysgolion hynny.

28. Bydd angen i ysgolion barhau i fodloni eu hunain fod eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn bodloni'r gofyniad plwraliaethol a grëwyd gan ddeddfwriaeth hawliau dynol, a bydd angen i CYSAGau, Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ac Awdurdodau Lleol barhau i sicrhau bod unrhyw faes llafur cytunedig y byddant yn ei ddatblygu a'i fabwysiadu hefyd yn bodloni'r gofynion hyn.

# Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg

| **Ffurflen ymateb iymgynghoriad** | Eich enw:<br><br>Sefydliad (os yw'n berthnasol):<br><br>e-bost/rhif ffôn:<br><br>Eich cyfeiriad: |
|---|---|

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **28 Gorffennaf 2020** i:

Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: YmgynghoriadCGM@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – A ydych yn cytuno y dylai crefydd, gwerthoedd a moeseg gwmpasu credoau crefyddol ac anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol (yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol) fel y'u disgrifir yn y ddogfen ymgynghori?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2** – A ydych yn cytuno y dylai cynadleddau meysydd llafur cytunedig **ystyried** canllawiau statudol wrth ddatblygu eu maes llafur cytunedig lleol?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3** – A ydych yn cytuno â'n cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cymunedol a sefydledig ac ysgolion gwirfoddol **heb nodweddion crefyddol** ystyried maes llafur cytunedig wrth ddylunio crefydd, gwerthoedd a moeseg a'i roi ar waith?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4** – A ydych yn cytuno â'n cynnig na chaiff rhieni/gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion **heb nodweddion crefyddol** ofyn i ysgol addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol mwyach?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5** – A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai ysgolion gwirfoddol a reolir **â nodweddion crefyddol** allu addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol **os bydd rhieni/gofalwyr yn gofyn iddynt wneud hynny?**

| Cytuno | ☐ | | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6** – A ydych yn cytuno y dylai fod yn **ofynnol** i **ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol** addysgu yn unol â'r maes llafur cytunedig **os bydd rhiant/gofalwr yn gofyn iddynt wneud hynny**, ac a ddylai fod ganddynt ddisgresiwn i wrthod cais o'r fath?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn mewn perthynas â chrefydd, gwerthoedd a moeseg yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 8** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru:

i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw bryderon nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma ☐